**PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL**

**22 Mawrth 2017**

Yn Bresennol: Cynghorydd R Kilmister (Cadeirydd)
Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd S Hudson, Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd A Wilcox.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.30pm – 2.15pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Ragfyr 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Ragfyr 2016.

**4. Asesu gwaith Gwasanaeth Wardeniaid y Parc Cenedlaethol**

Dechreuodd adroddiad y Pennaeth Cyflawni drwy egluro bod y gwasanaeth Wardeniaid yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn gweithio ar dasgau ymarferol, boed yn waith cadwraeth a gwaith coetir, rheoli eiddo Safleoedd y Parc Cenedlaethol (gan gynnwys y tir o amgylch Castell Henllys a Chastell Caeriw) neu (y rhan fwyaf o'r gwaith) yn rheoli cyfleusterau mynediad: Llwybr yr Arfordir, hawliau tramwy diffiniol neu lwybrau caniataol. Roedd hyn yn golygu llawer iawn o gyswllt â thirfeddianwyr a chysylltu ag ymwelwyr, ond roedd y prif ffocws ar gynllunio a gwneud gwaith ymarferol. Roedd y rôl yn wahanol i rôl y Parcmyn oedd â'i brif ffocws ar ymdrin â phobl - cyswllt cymunedol, gweithio gydag ysgolion, gwirfoddolwyr neu mynd i'r afael ag effeithiau gweithgareddau hamdden, er eu bod hefyd yn cyflawni tasgau ymarferol. Roedd y ddau dîm yn ategu ac yn dibynnu ar ei gilydd ac roedd yn hanfodol eu bod yn gweithio'n agos iawn gyda'i gilydd.

Aeth yr adroddiad rhagddo i amlinellu'r hyn yr oedd y Wardeniaid yn ei wneud, adnoddau a chostau'r tîm, a'r modd yr oedd y gwaith yn cael ei werthuso, ac a oedd ffordd well o wneud y gwaith. Er mwyn rhoi darlun cliriach i'r Pwyllgor o'r gwaith a wneir, cyflwynodd y Pennaeth Cyflawni y tri Rheolwr Wardeniaid Ardal a amlinellodd yn fanylach eu gwaith ar y safleoedd a'r llwybrau mewndirol, llwybr yr arfordir a'r gwaith cadwraeth a wneir. Roedd y gwaith yn waith rhagweithiol yn bennaf â rhaglen o waith cynnal-a-chadw dros y gaeaf, oedd hefyd yn ceisio cynllunio ar gyfer y posibilrwydd o gael cwymp clogwyni yn y dyfodol. Dywedwyd ganddynt mai'r allwedd i'w llwyddiant oedd eu parodrwydd i aros a siarad gyda thirfeddianwyr i allu meithrin perthynas gadarnhaol â hwy, yn

ogystal ag ymwelwyr, ac i egluro'r hyn yr oeddent yn ei wneud, a pham. Ychwanegwyd petai'r Aelodau yn dymuno gweld drostynt eu hunain y gwaith a wneir, gallent gysylltu ag unrhyw un o'r Rheolwyr Wardeniaid Ardal fyddai'n hapus i drefnu ymweliad.

Wrth ddiolch i'r Rheolwyr Wardeniaid Ardal am eu cyflwyniadau, roedd yr Aelodau yn cydnabod bod parch mawr ymhlith y gymuned leol i'r gwaith a wneir gan y timau Wardeniaid. Roedd rhyngweithio cadarnhaol â'r gymuned ffermio yn hynod bwysig, ac roedd defnyddio staff Cymraeg eu hiaith yn y cyswllt hwn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Roeddent yn falch bod y canran o lwybrau oedd ar agor ac ar gael i'w defnyddio wedi codi i 86%, ac roedd diddordeb ganddynt mewn gwybod sut y gwneir penderfyniad ynghylch pa rai o'r llwybrau sy'n weddill sy'n cael blaenoriaeth o ran eu hagor. Atebodd y swyddogion drwy ddweud bod adnoddau yn cael eu canolbwyntio ar y llwybrau sy'n gyswllt pwysig o ran creu rhwydwaith o lwybrau y gellir eu defnyddio. Ac eithrio rhai llwybrau dyblyg, roedd y rhan fwyaf o'r llwybrau yn awr ar agor, ac roedd y llwybrau sy'n weddill a ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hagor angen mwy o gyd-drafod ac o bosibl camau cyfreithiol i gael gwared ar rwystrau.

Hefyd holodd yr Aelodau am gyfleoedd pellach ar gyfer pori neu ddefnyddio gwirfoddolwyr fel y gellid gwneud yr adnoddau presennol i fynd ymhellach. Atebodd y swyddog drwy ddweud gan ei bod yn aneconomaidd i bori'r llethrau arfordirol, bod yr Awdurdod yn cynnal prosiect i annog pori'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, roedd materion o gwmpas pentrefi oedd yn ymwneud â nifer y cerddwyr cŵn yn golygu bod rhaid ffensio rhai llwybrau gyda'r canlyniad nad oeddent yn cael eu pori. O ran gwirfoddolwyr, roedd gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio, yn enwedig i agor llwybrau nas defnyddir. Fodd bynnag, roedd yr angen i gyflenwi offer mecanyddol iddynt a'u hyfforddi i ddefnyddio'r offer hwnnw yn golygu bod y defnydd a wneir o wirfoddolwyr yn gyfyngedig.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pennaeth Cyflawni yn ymddeol ar ddiwedd y mis ac, ar ran yr Aelodau, dymunodd ymddeoliad hapus iawn iddo. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod recriwtio ar gyfer rôl ddiwygiedig ar y gweill, ac mai'r gobaith oedd y gellir cyhoeddi enw'r deiliad swydd yn y dyfodol agos.

**NODWYD.**

**5. Adolygiad o waith Dehongli Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Dywedwyd bod y gwaith dehongli ar ran yr Awdurdod yn cael ei wneud gan ddau Swyddog Dehongli sy'n rhannu swydd. Roedd un o'r swyddogion wedi ysgrifennu ffilm fer, a wnaed gan John Worrall oedd yn rheolwr Canolfan Ymwelwyr yr Awdurdod yn Ninbych-y-pysgod. Roedd y ffilm yn dangos ystod ac ehangder y gwaith a wneir, a dangoswyd y ffilm i'r Pwyllgor. Roedd y ffilm yn dangos amrywiaeth o enghreifftiau dehongli, oedd yn amrywio o baneli, arwyddion traddodiadol a thaflenni i brosiect celf gymunedol yng Nghaeriw a Llwybr Troednoeth yng Nghastell Henllys.

Wrth ddiolch i'r swyddog am gyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth, gofynnodd yr Aelodau faint o weithio mewn partneriaeth a wneir â sefydliadau

eraill megis PLANED a Chyngor Sir Penfro. Atebodd bod yr Awdurdod yn gweithio gyda llawer o wahanol sefydliadau, yn ddiweddar gyda Chyngor Sir Penfro i greu cyfres o ffilmiau byr ar gyfer Blwyddyn y Chwedlau. Roedd y gwaith a wneir gan y tîm bob amser yn gysylltiedig â themâu Croeso Cymru, ond roedd peth gwaith hefyd yn ddibynnol ar gyllid a chyfleoedd eraill. Roedd y cyhoedd yn gwerthfawrogi'r gwaith o baratoi deunydd esboniadol oedd â'r nod o estyn croeso iddynt. Serch hynny, anodd oedd mesur y canlyniadau meintiol.

**NODWYD.**

**6. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2017**

Dywedwyd bod yr adroddiad perfformiad wedi'i addasu i ddilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-17, oedd ei hun yn dilyn trefn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd â saith o amcanion llesiant ac adran ychwanegol oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 31 Ionawr. Fodd bynnag roedd rhai setiau data ond yn ymwneud â'r tri chwarter cyntaf o'r flwyddyn ariannol h.y. o fis Ebrill i fis Rhagfyr. Roedd y fformat wedi'i newid i gynnwys data cymharydd lle bo'n bosibl o'r flwyddyn flaenorol ac astudiaethau achos i ddangos y camau gweithredu a gymerwyd lle bo'n briodol.

Dywedwyd bod gwelliant yn y perfformiad o ran canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd cyn pen 8 wythnos hyd yn hyn eleni. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yn nifer y cysylltiadau â'r brif wefan ers y llynedd, yn rhannol oherwydd y ffigurau chwyddedig uchel o ddefnyddwyr yn ystod 2015 yn dilyn dwy ymgyrch fawr ar-lein. Hefyd roedd gallu'r Awdurdod i gyrraedd y targed ar gyfer y nifer o bobl 'anodd eu cyrraedd' i ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol hyd yn hyn eleni wedi cael ei effeithio gan derfynu'r cyllid i'r prosiect Eich Parc fis Mawrth 2016. Fodd bynnag, erbyn hyn llwyddwyd i gael cyllid ar gyfer prosiect olynol 'Llwybrau', felly roedd y targed yn parhau i fod yn uchel.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r ffigurau ar gyfer perfformiad cynllunio, ac er eu bod yn falch bod nifer yr unedau tai fforddiadwy a gymeradwywyd hyd yn hyn eleni yn 17, pwysleisiwyd bod mwy eto i'w wneud yn y maes hwn. Gofynnwyd a oedd unrhyw un o'r digwyddiadau diogelwch yn yr adroddiad yn destun pryder, ac eglurodd y swyddogion bod y digwyddiad RIDDOR yn ddamwain hynod o anghyffredin, gan ychwanegu bod y nifer targed uchod o ddiwrnodau a gollir oherwydd salwch yn parhau i gael ei fonitro, a bod rhai o'r diwrnodau a gollir oherwydd materion iechyd heb fod yn gysylltiedig â gwaith. Yn olaf, nododd yr Aelodau bod eu presenoldeb yn is na'r targed mewn digwyddiadau hyfforddiant, yn siomedig, ond y byddai'r presenoldeb yn sicr o wella pan benodir Aelodau newydd yn dilyn yr etholiadau oedd ar fin cael eu cynnal.

Penderfynwyd **DERBYN** yr Adroddiad Perfformiad**.**

**7. Cofrestr Risg**

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Tîm Rheoli a'r Tîm Arwain wedi adolygu'r gofrestr risg a bod y camau a gymerwyd yn ddiweddar a'r newidiadau wedi'u

nodi.  Roedd newidiadau sylweddol yn y risgiau wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, ac roedd y gofrestr lawn yn atodedig i'r Aelodau gael ei hystyried.

Nodwyd nad oedd yr Adroddiad i'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig wedi'i chyhoeddi ar y 15fed o Fawrth gan fod y Gweinidog wedi torri ei braich ac y byddai copi yn cael ei ddosbarthu unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i lansio.

**NODWYD.**

**8. Trosolwg o'r Arddangosfa yn ddiweddar yn Oriel y Parc ar Constable**

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn ddiweddariad i'r Aelodau ar lwyddiant yr arddangosfa ar Constable yn 2016 a gynhaliwyd yn Oriel y Parc ar y cyd ag Oriel Tate ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a welodd gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r Oriel.  Hefyd roedd yr adroddiad yn amlinellu'r dehongli, y digwyddiadau a'r gweithgareddau eraill oedd yn gysylltiedig â'r arddangosfa gan gynnwys y rhaglen Artistiaid preswyl.

Roedd gwerthusiad strwythuredig o'r rhaglen arddangosfeydd wedi'i wneud gan Anne Millman Associates, ac roedd crynodeb gweithredol o'r gwerthusiad ynghlwm wrth yr adroddiad.  Hefyd roedd detholiad o'r sylwadau yn y Llyfr Ymwelwyr ac ar Trip Advisor wedi'u cynnwys.

Ychwanegodd y swyddogion mai un o fanteision pennaf yr arddangosfa oedd meithrin perthynas ag Oriel y Tate, a'r gobaith oedd y gallai'r berthynas â'r Tate gael ei ffurfioli er mwyn hwyluso arddangosfeydd yn y dyfodol.  Byddai hyn hefyd yn cysylltu â chais Tyddewi i fod yn Ddinas Diwylliant, a byddai adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yr wythnos ddilynol.  Roedd yr Aelodau wrth eu bodd â llwyddiant yr arddangosfa ac yn gobeithio y gallai gwaith o safon debyg gael ei arddangos yn y dyfodol agos.

**NODWYD.**

**9. Diagram yn amlinellu'r cysylltiadau rhwng cynlluniau'r Awdurdod**

Roedd y ddogfen hon wedi'i llunio er gwybodaeth yr Aelodau i ddangos sut oedd cynlluniau'r Awdurdod yn cyd-fynd â'i gilydd. Diolchwyd i'r swyddogion am y diagram hynod ddefnyddiol.

**NODWYD.**

**10. Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Adolygu Gweithredol**

Atgoffwyd yr Aelodau bod adroddiad wedi'i gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Chwefror yn eu gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y Strwythur Pwyllgorau ar hyn o bryd.  Roedd yr Aelodau o'r farn, ar y cyfan, bod y strwythur presennol yn addas at y diben.  Serch hynny, cytunwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn cael cyfle i adolygu eu Cylch Gorchwyl a gwneud unrhyw argymhellion ar eu newid i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Roedd yr Aelodau o'r farn gan taw'r cyfarfod hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Pwyllgor na fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau.

**PENDERFYNWYD** peidio â gwneud unrhyw newid i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

**11. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.